Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Crynodeb o'r adroddiad ymchwil

Sefydliadau cymdeithas sifil a hawliau dynol rhyngwladol

Gorffennaf 2020

Laura Wills a Annemarie Walter

Prifysgol Nottingham

equalityhumanrights.com

Cynnwys

Cyflwyniad **2**

Y prosiect **3**

Methodoleg **4**

Canfyddiadau allweddol **5**

Gan bwy y clywsom 5

Ymgysylltu cyfredol 5

Ymgysylltu'r dyfodol 8

Cymorth EHRC 9

Cysylltiadau **10**

Cyflwyniad

Rhan allweddol o ddull y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) fel sefydliad yw darparu gwybodaeth glir, hygyrch i helpu pobl i ddeall a mynnu eu hawliau. Rydym yn gwneud hyn trwy wrando ar eu profiadau a dysgu ohonynt. Mae gweithio'n agos gyda chymdeithas sifil yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o sut mae pryderon cydraddoldeb a hawliau dynol yn effeithio ar fywydau pobl, ac yn ein helpu i gael gwybodaeth hanfodol i lywio a gwella'r gwaith a gyflawnwn.

Gall sicrhau cymdeithas sifil fywiog, gref a chynhwysol, ar wahân i fod o werth ynddo'i hun, hefyd gryfhau ein hymdrechion ynghylch eiriolaeth. Ni fydd unrhyw un sefydliad yn datrys yr ystod eang o broblemau ym maes hawliau dynol sy'n wynebu'r wlad ar hyn o bryd. Mae hyn yn gofyn am glymblaid o sefydliadau sydd â diddordebau a gwerthoedd a rennir.

Yn hynny o beth, rydym yn ceisio meithrin gallu sefydliadau cymdeithas sifil (CSOs) i wella eu dealltwriaeth o hawliau dynol, eu cefnogi i fynnu'r hawliau hynny, ac annog ac amddiffyn eu gallu i eiriol dros newid parhaus, ystyrlon.

Y prosiect

Ym mis Rhagfyr 2019, fe wnaethom gomisiynu Prifysgol Nottingham i:

- benderfynu i ba raddau y mae CSOs yng Nghymru a Lloegr yn cyfeirio at y fframwaith hawliau dynol rhyngwladol (IHRF) yn eu gwaith
- asesu'r effaith y mae cyfeirio at yr IHRF yn ei chael ar weithgareddau CSO, a
- chanfod pa newidiadau a fyddai'n galluogi CSOs i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r IHRF yn y dyfodol.

Cyn ymgymryd â'r ymchwil hon, ychydig iawn o wybodaeth oedd gennym am y graddau y mae CSOs yn ymgysylltu â'r IHRF yn eu gwaith ymgyfreitha, deddfwriaethol, eirioli, polisi, dylanwadu ac ymgyrchu. Roedd y wybodaeth a oedd gennym yn anecdotaidd i raddau helaeth neu'n cael ei chasglu trwy brofiad. Er mwyn llenwi'r bwlch hwn yn ein sylfaen dystiolaeth, fe wnaeth Prifysgol Nottingham gynnal arolwg o CSOs dethol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

Nod y crynodeb hwn o brif ganfyddiadau'r ymchwil yw ein helpu i benderfynu ar y ffordd orau i helpu CSOs i ymgysylltu â'r IHRF a dwyn llywodraethau i gyfrif am eu rhwymedigaethau hawliau dynol. Mae hefyd yn debygol o fod o ddiddordeb i CSOs, cyllidwyr eraill ym maes gwaith hawliau dynol a chynulleidfa hawliau dynol ehangach.

Methodoleg

Ar 23 Ionawr 2020, anfonodd Prifysgol Nottingham holiaduron arolwg at 359 o CSOs trwy e-bost. Fe wnaethom gasglu sefydliadau yn y sampl yn dri chategori (‘ymgysylltu cryf’; ‘rhywfaint o ymgysylltu’; ‘dim ymgysylltu’) fel y’i diffinnir gan yr EHRC. Roedd y categorïau hyn yn ymwneud â'u lefel canfyddedig o ymgysylltu â naill ai cytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig a/neu fecanweithiau adolygu hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig. Roedd yr holiadur yn ymdrin â defnydd cyfredol a defnydd y dyfodol gan CSOs o gytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig a/neu eu hymgysylltiad â mecanweithiau adolygu hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig. Archwiliodd hefyd ddefnydd y CSOs o gyllid EHRC a’r gweithgareddau y byddent yn eu cynnal pe byddai mwy o adnoddau a/neu gymorth ar gael.

Ar ôl gwaith dilynol helaeth, ymatebodd 119 CSO i'r arolwg erbyn y dyddiad cau, sef 13 Mawrth 2020 (cyfradd ymateb o 33%). O'r rhain, roedd 36 wedi dod o'r grŵp ymgysylltu cryf, 24 o'r grŵp rhywfaint o ymgysylltu a 59 o'r grŵp dim ymgysylltu.

Roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn uwch reolwyr, a oedd yn cyfrif am bron i hanner y cyfanswm (45%), tra bod mwyafrif (81%) yr ymatebwyr yn gweithio i sefydliadau gyda 50 neu lai o aelodau staff. Ymhellach, roedd mwy na hanner (52%) yn gweithio i sefydliadau gyda 10 aelod staff neu lai. Roedd CSOs a ymatebodd yn fwyaf tebygol o gynrychioli neu gefnogi pobl hŷn, pobl ifanc neu blant, pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig a menywod, gyda 40-50% o sefydliadau yn gwneud hynny.

Fe gynhaliodd aelodau staff Prifysgol Nottingham yr ymchwil: Ms Laura Wills, y Swyddog Ymchwil a Phrosiect yn y Ganolfan Cyfraith Hawliau Dynol (HRLC), a Dr Annemarie Walter, Athro Cynorthwyol yn yr Ysgol Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol. Yr Athro Aoife Nolan, Cyd-gyfarwyddwr HRLC, a arweiniodd dîm y prosiect.

Canfyddiadau allweddol

Gan bwy y clywsom

Roedd CSOs a ymatebodd yn fwyaf tebygol o wneud gwaith polisi (85%) ac ymgyrchu cyhoeddus (78%). Mae oddeutu hanner yn darparu hyfforddiant ac addysg i gyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaeth (50%), eiriolaeth ar ran unigolion (49%), a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i gyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaeth (46%). Mae'r ffigurau hyn yn fwy na 100% gan fod llawer o CSOs yn cyflawni mwy nag un gweithgaredd yn ystod eu gwaith. Nododd ychydig llai na thraean (32%), fodd bynnag, mai gwaith polisi a dylanwadu eu sefydliad oedd y gweithgaredd pwysicaf y maent yn ei wneud.

Roedd dwy ran o bump o CSOs (44%) yn cyfeirio at gytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig (y cytuniadau) ac yn ymgysylltu ag unrhyw un o fecanweithiau adolygu hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig (mecanweithiau adolygu), tra bod traean (36%) yn cyfeirio at y cytuniadau yn eu gwaith yn unig. Nid oedd un rhan o bump (20%) yn cyfeirio naill ai at y cytuniadau nac at y mecanweithiau adolygu.

Ymgysylltu cyfredol

Roedd CSOs a oedd yn ymgysylltu â'r mecanweithiau adolygu yn fwy tebygol o dynnu ar yr IHRF yn amlach yn eu gwaith. O'r rhai a gyfeiriodd at y cytuniadau yn unig, roedd un o bob deg (10%) yn gwneud hynny o leiaf unwaith yr wythnos ac roedd hanner arall (49%) yn gwneud hynny yn llai aml na hyn, ond o leiaf unwaith y mis. I'r rhai a oedd yn cyfeirio at y cytuniadau ac yn ymgysylltu â mecanweithiau adolygu, roedd dwy ran o bump (43%) yn gwneud hynny o leiaf unwaith yr wythnos ac roedd traean arall (33%) yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis.

Arferion da

Roedd un ymatebydd yn teimlo bod y ffaith bod ei sefydliad yn cyfeirio at y cytuniadau a'i fod yn ymgysylltu â mecanweithiau adolygu yn eu helpu i adeiladu enw da am adroddiadau sydd wedi'u cyflwyno'n dda, sy'n amserol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Polisi a dylanwadu ar waith oedd y prif reswm pam yr oedd CSOs yn cyfeirio at y cytuniadau ac yn ymgysylltu â mecanweithiau adolygu. O'r holl CSOs a oedd yn cyfeirio at y naill neu'r llall neu'r ddau, roedd 85% yn gwneud hynny ar gyfer polisi a dylanwadu ar waith. Er bod y niferoedd sylfaenol yn fach, ac felly dylid dehongli'r canlyniadau'n ofalus, roedd CSOs a oedd yn cyfeirio at y cytuniadau a'r mecanweithiau adolygu, neu a oedd yn ymgysylltu â hwy, yn fwy tebygol o gyfeirio at waith polisi a/neu ddylanwadu (98%) na'r rhai a oedd yn cyfeirio at y cytuniadau yn unig (68%).

Arferion da

Fe wnaeth un sefydliad dynnu sylw at ofynion y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD) ar gyfer addasiadau mewn adroddiad o 2016 ar iechyd meddwl a threial teg ac yn eu gwaith dilynol, sydd wedi dylanwadu wedi hynny ar ganllawiau gan y Llywodraeth..

Yn gyffredinol, yr ail reswm pwysicaf oedd ymgyrchu cyhoeddus: o CSOs a oedd yn cyfeirio naill ai at y cytuniadau neu'r mecanweithiau adolygu, roedd 64% yn gwneud hynny am y rheswm hwn. Nododd ymatebion manylach gan CSOs fod yr ymgysylltu ar ei uchaf gyda'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC) a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW), a ddilynwyd gan y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau. (CRPD).

Arferion da

Fe gyfeiriodd un sefydliad at rôl CRC yn eu gwaith ymgyrchu i ffoaduriaid ifanc sydd wedi'u gwahanu yn y DU gael yr hawl i wneud cais am Aduniad Teulu Ffoaduriaid. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at CEDAW yn eu gwaith i sicrhau bod menywod yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal yn system loches y DU.

Fe ganfu CSOs a oedd yn cyfeirio at y cytuniadau ac a oedd yn ymgysylltu â mecanweithiau adolygu (76%) fod eu hymgysylltu naill ai'n “effeithiol iawn” neu'n “eithaf effeithiol” wrth gyflawni nodau ac amcanion strategol eu sefydliad. Roedd hyn yn cymharu â 68% o'r rhai a oedd yn cyfeirio at y cytuniadau yn unig, gan awgrymu y gallai ymgysylltu cynyddol â'r mecanweithiau adolygu arwain at farn fwy ffafriol ar effeithiolrwydd cyffredinol y gwaith hwn. Nododd chwarter (27%) y CSOs, a oedd naill ai ond yn cyfeirio at y cytuniadau neu a oedd hefyd yn ymgysylltu â'r mecanweithiau adolygu, nad oedd eu hymgysylltu’n effeithiol iawn.

Ymgysylltu’r dyfodol

Y prif rwystr a oedd yn atal CSOs rhag gwneud mwy o ddefnydd o'r cytuniadau a/neu'r mecanweithiau adolygu oedd diffyg adnoddau; riportiwyd hyn gan ddwy ran o bump o'r CSOs yn gyffredinol (44%) a hwn oedd y prif rwystr i CSOs o'r tri chategori ymgysylltu. Yn ogystal, nododd oddeutu chwarter (29%) y CSOs nad oedd ganddynt y wybodaeth arbenigol i ddefnyddio cytuniadau hawliau dynol neu fecanweithiau adolygu.

Y gofynion pwysicaf i alluogi mwy o ymgysylltu oedd mwy o adnoddau dynol a/neu ariannol (a nodwyd gan 70% o CSOs), a bod hawliau'r cytuniad yn orfodadwy yn gyfreithiol ar y lefel ddomestig (63%). Nododd bron i hanner (47%) y byddai gwell dealltwriaeth o gymhwyster cytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig yn y cyd-destun domestig yn galluogi mwy o ymgysylltu. Roedd chwarter (24%) yn teimlo pe byddai gan eu sefydliad fwy o adnoddau, y byddent yn defnyddio hawliau’r cytuniad i gryfhau eu gwaith dylanwadu, eirioli neu ymgyfreitha. Yn ogystal, dywedodd 12% o CSOs y byddent yn defnyddio'r mecanweithiau cwynion unigol o dan CEDAW a CRPD.

Nododd ychydig dros hanner y CSOs (51%) a oedd yn cyfeirio at y cytuniadau yn unig y byddai gwell arweiniad ar sut i ddefnyddio cytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig yn eu gwneud yn fwy tebygol o gyfeirio atynt neu ymgysylltu â'r mecanweithiau adolygu. Roedd hyn o'i gymharu â dim ond un rhan o bump (20%) o'r CSOs a oedd eisoes wedi ymgysylltu â'r mecanweithiau adolygu.

Arddangosodd ymatebion i nifer o gwestiynau gwahanol fod llawer o CSOs yn teimlo bod Llywodraeth y DU yn dangos diffyg ymgysylltu â materion hawliau, a gofal amdanynt. Yn benodol, nododd 15 o ymatebwyr y mae eu sefydliadau'n gweithredu yng Nghymru, naill ai fwy o ddiddordeb mewn hawliau dynol gan Lywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU neu strwythur hawliau domestig gwell yng Nghymru.

Cymorth EHRC

Pan ofynnwyd iddynt am y defnyddiau a ffefrir o gyllid posibl yn y dyfodol gan yr EHRC, dywedodd ychydig dros hanner (53%) yr ymatebwyr y byddent yn cynnull trafodaethau rhanddeiliaid, tra byddai dwy ran o bump (42%) yn trefnu digwyddiadau i alluogi gwneud cyflwyniad i adolygiad corff cytuniad y Cenhedloedd Unedig. Yn ogystal, byddai dwy ran o bump (42%) yn ceisio defnyddio cyllid posibl gan EHRC yn y dyfodol i ddarparu tystiolaeth, gan gynnwys o'n hadroddiadau A yw Prydain yn Decach?, ar gyfer cyflwyniad. Dywedodd 40% y byddent yn ei ddefnyddio i ddarparu cymorth ar gyfer achosion cyfreithiol.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan.

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu eich adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu un o'n cyhoeddiadau mewn fformat amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

Cadwch yn gyfredol â'r newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr.

Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol sy'n rhad ac am ddim.

Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 i 19:00 (dydd Llun i ddydd Gwener)
	10:00 i 14:00 (dydd Sadwrn)
Post	RHADBOST EASS LLINELL GYMORTH FPN6521

© 2020 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2020

ISBN: 978-1-84206-833-5